YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon pennawd): yr wythnos diweddu 22 Ionawr 2022

Crynodeb o ganlyniadau pennawd cynnar y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r arolwg heintiadau Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer yr wythnos diweddu 22 Ionawr 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Ionawr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Ionawr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

# Cyflwyniad

Yn ystod y cyfnod hwn o heintiadau uchel, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cyhoeddi canlyniadau pennawd cynnar o'r arolwg heintiadau Coronafeirws (COVID-19) ar ddydd Mercher. Mae'r datganiad hwn yn cyd-fynd â set ddata gyfyngedig sy'n cynnwys amcangyfrifon o bositifrwydd yn ôl gwlad a dadansoddiad amrywiaeth yn ôl gwlad. Dyma grynodeb o'r amcangyfrifon pennawd ar gyfer Cymru. Nid yw hyn yn disodli datganiad llawn yr arolwg heintiadau a gyhoeddir bob dydd Gwener am 12pm. **Mae SYG wedi cynhyrchu datganiad sy'n egluro'r angen am yr amcangyfrifon pennawd ychwanegol**.

Heddiw, **mae'r SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n profi'n bositif ar gyfer COVID-19 yn yr wythnos yn diweddu 22 Ionawr 2022**.

# Prif bwyntiau

- Yng Nghymru, parhaodd canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 i ostwng yn yr wythnos yn diweddu 22 Ionawr; amcangyfrifir bod gan 99,500 o bobl yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 83,300 i 117,100),

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 30 o bobl.

- Mae heintiau COVID-19 sy'n gydweddu â'r Omicron yn parhau i fod yr amrywiad mwyaf cyffredin yng Nghymru.

Mae nifer y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 wedi parhau i ostwng yng Nghymru, Lloegr ac yr Alban yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, tra bod y duedd yn ansicr yng Ngogledd Iwerddon.

## Cymhariaeth y DU


- Yn Lloegr, parhaodd canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 i ostwng yn yr wythnos yn diweddu 22 Ionawr; amcangyfrifir bod gan 2,629,400 o bobl yn Lloegr COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 2,542,500 i 2,716,500), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 20 o bobl.
- Yng Ngogledd Iwerddon, mae’r duedd yn ansicr yn yr wythnos yn diweddu 22 Ionawr; amcangyfrifir bod gan 96,500 o bobl yng Ngogledd Iwerddon COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 81,600 i 112,700), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 20 o bobl.
- Yn yr Alban, parhaodd canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 i ostwng yn yr wythnos yn diweddu 22 Ionawr; amcangyfrifir bod gan 163,600 o bobl yn yr Alban COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 143,600 i 184,500), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 30 o bobl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 1: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng ngwledydd y DU sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) ar swabiau trwyn a gwddf ers 12 Rhagfyr 2021**




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), SYG
Mae'r llinellau'n cynrychioli'r tueddiad sydd wedi'i fodelu sy'n seiliedig ar y data diweddaraf. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl ganlyniadau yn rhai dros dro ac fallai bydd yn cael eu adolygu.

Mae'r ystadegau hyn yn cyfeirio at heintiau sy'n digwydd mewn cartrefi preifat, ac nid ydynt yn cynnwys heintiau a adroddir mewn ysbytai, cartrefi gofal a / neu sefydliadau cymunedol eraill.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Diffinnir positifrwydd sy'n gydweddu ag amrywiad Omicron fel y rhai sy'n bositif ar y genyn-ORF1ab a'r genyn-N, ond nid y genyn-S. Yn bennaf, bydd positif sy’n gydweddu ag amrywiad Delta gyda phatrwm genynnau ORF1ab + N + S (neu weithiau S + ORF1ab & S + N), ac felly yn y dadansoddiad hwn fe'u diffinnir fel y rhai sy'n bositif ar yr ORF1ab, genyn-N a genyn-S, yn ogystal â phatrymau genynnau N + S ac ORF1ab + S.

Dylid trin data yn ofalus. Nid pob achos positif ar y genyn-S fydd yr amrywiad Delta, ond bydd rhai achosion â phatrwm ORF1ab + N yr amrywiad Delta hefyd lle na chanfuwyd y genyn-S am resymau eraill, megis llwyth firaol isel.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

2 Chwefror 2022

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sean White
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 30/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon pennawd): yr wythnos diweddu 22 Ionawr 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-22-ionawr-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.